| <b>Diddordebau</b><br>Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden? | Dw i'n hoffi . . .<br>Dw i'n caru . . .<br>Dw i'n dwlu ar . . .<br>Dw i wrth fy modd yn . . .<br>Dw i ddim yn hoffi . . .<br>Dydw i ddim yn hoffi . . .<br>Dw i'n casau . . .<br>Mae'n gas gen i . . .<br>Mae'n gas gyda fi . . .<br>. . . achos mae'n wych.<br>. . . achos mae'n dda.<br>. . . achos mae'n dda i fi.<br>. . . achos mae'n hanfodol.<br>. . . achos mae'n gyffrous.<br>. . . achos mae'n ddefnyddiol.<br>. . . achos mae'n bwysig. |

|                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                       | <p>... achos dw i wrth fy modd yn ...</p> <p>Dw i'n hoffi <i>nofio</i> achos dw i wrth fy modd yn <i>cadw'n heini</i>.</p> <p>... achos mae'n sbwriel.</p> <p>... achos mae'n ddiflas.</p> <p>... achos mae'n wastraff amser.</p> <p>... achos mae'n dwp.</p> <p>... achos mae'n wirion.</p> <p>... achos mae'n ddrud.</p> <p>... achos mae'n gostus.</p> <p>... achos mae'n ddrwg i fi.</p> <p>Dw i ddim yn hoffi <i>chwarae badminton</i> achos dw i'n hoffi <i>chwaraeon tîm</i>.</p> <p>Ar y penwythnos dw i'n ...</p> <p>Penwythnos diwethaf es i i ...</p> <p>Penwythnos diwethaf roeddwn i wedi ...</p> <p><i>Ar ôl arholiadau TGAU bydda i'n mynd i wyl gerddoriaeth Glastonbury gyda fy ffrindiau achos dw i'n dwlu ar gerddoriaeth.</i></p> <p><i>Yn yr haf hoffwn i fynd i Ewrop ar y trê'n gyda fy ffrindiau achos rydyn ni'n hoffi teithio a dysgu ieithoedd.</i></p> |
| <p><b>Sgiliau Profiad</b></p> <p>Oes sgiliau gyda ti?</p> <p>Beth wyt ti'n gallu ei wneud yn dda?</p> | <p>Dw i'n gallu ...</p> <p>Dw i'n dda iawn yn ...</p> <p>Mae cymhwyster ... gyda fi</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
|                                                                                                       | <p><i>Dw i'n gallu nofio a mae cymhwyster achub bywyd gyda fi.</i></p> <p><i>Dw i'n dda iawn mewn argyfwng achos mae cymhwyster Cymorth Cyntaf gyda fi a rydw i'n gwirfoddoli gyda'r Groes Goch (Red Cross).</i></p> <p><i>Dw i'n drefnus iawn ac yn hoffi helpu pobl llai ffodus felly dw i'n gwirfoddoli ar y penwythnos yn y siop elusen Barnado's yn y dre.</i></p> <p><i>Mae pedwar ci gyda ni a dw i wrth fy modd yn gweithio gydag anifeiliaid felly dw i'n gwirfoddoli mewn cartref i gŵn yn ystod y gwyliau.</i></p> <p><i>Dw i'n gallu gweithio mewn tîm achos rydw i'n gweithio ar gylchgrawn yr ysgol.</i></p> <p><i>Dw i'n gallu gweithio mewn tîm achos rydw i'n aelod o gerddorfa'r ysgol.</i></p> <p><i>Dw i'n gallu arwain achos fi yw capten y tîm ...</i></p> <p><i>Dw i'n ffrind da a dw i'n gallu gwrando'n dda a chynnig cyngor.</i></p>                     |

|                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|---------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Wyt ti wedi cael profiad?<br>Oes profiad gyda ti? | <i>Blwyddyn diwethaf roeddwn i wedi helpu Mr Evans daearyddiaeth i drefu trip Ysgol Blwyddyn 10 i Efrog Newydd a Washington. Roedd rhaid i fi . . . ebostio/ffonio/siarad gyda/wneud ymchwil/archebu/</i>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| Wyt ti wedi bod ar brofiad gwaith?                | Es i ar brofiad gwaith am wythnos y llynedd i . . .<br>Dysgais i lawer o sgiliau newydd fel . . .<br>ebostio/ysgrifennu hysbyseb/creu rhaglen/gweithio mewn tîm                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| Sut oedd y profiad                                | Roedd e'n . . .<br>dddefnyddiol dros ben (extremely useful)<br>ddiddorol/her(challenge)/gyffrous . . . achos dysgais i lawer o sgiliau newydd fel gweithio mewn tîm/creu rhaglen ar y cyfrifiadur/creu bwydlen . . .                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| Y bobl                                            | Roedd y rheolwr/rheolwraig Mr/Mrs Jones yn wych achos roedd e'n/hi'n amyneddgar patient)/egluro pethau'n dda/siarad gyda fi drwy'r wythnos/dysgu pethau newydd i fi<br>Doedd y rheolwr/rheolwraig Mr/Mrs Jones ddim yn dda iawn achos roedd e'n/hi'n rhy brysur i siarad gyda fi ond roedd y tîm yn garedig iawn ac yn llawn hwyl.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| Trefn y diwrnod                                   | Codais i am . . . bob bore.<br>Ces i . . . i frecwast cyn dal y bws am . . . i'r gwaith<br>Ces i . . . i frecwast cyn cerdded i'r gwaith<br>Roedd Mam/Dad wedi mynd â fi yn y car i'r gwaith ar ôl i fi fwyta . . . i frecwast<br>Ces i amser egwyl am . . . gyda'r staff/gweithwyr.<br>Cawson ni baned a bisgedi siocled.<br><i>Ces i ginio am . . . Ddoe bwytais i frechdanau roedd Mam wedi paratoi ond heddiw es i i 'Greggs' gyda'r staff a phrynais i frechdan ham a salad, creision a dŵr.</i><br><i>Des i adre am chwech o'r gloch – dim gwaith cartref heno felly gwyliais i . . . ar 'Netflix' ac yna es i i'r gwely'n gynnwys am . . . achos roeddwn i wedi blino!</i> |
| Tasgau/Cyfrifoldebau                              | Roedd rhaid i fi . . .<br>Dangosodd Mr Jones i fi sut oedd creu/gwneud/trwsio/golchi/glanhau/torri . . .<br>Bob bore roedd rhaid i fi . . .<br>Yn y prynhawn roeddwn i'n . . .<br>Ar fore dydd Mercher, ces i'r cyfle i . . .<br>Fy hoff beth i oedd . . .<br>Doeddwn i ddim yn hoffi . . . achos . . .<br><i>Doeddwn i ddim yn hoffi paratoi'r cyri achos roeddwn i'n crio – llawer o wynwns/nionod!</i>                                                                                                                                                                                                                                                                         |

|                                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Heriau                                                                                                            | <p>Roedd dysgu sut i . . . yn her achos . . .</p> <p><i>Roedd dysgu sut i gael cyfarfod ar-lein yn her achos rydw i'n swil.</i></p> <p><i>Doeddwn i ddim yn hoffi delio gyda'r cwsmeriaid yn cwyno achos dydw i ddim yn hoffi cweryla.</i></p> <p>Hoffwn i fod wedi cael y cyfle i wneud mwy o . . .</p>                                                                                                                                                                                                                                         |
| Y dyfodol                                                                                                         | <p><i>Ces i brofiad gwyh ar brofiad gwaith a hoffwn i astudio i fod yn . . . ar ôl gadael yr ysgol.</i></p> <p><i>Dw i wedi dysgu llawer o sgiliau newydd fel . . . a felly hoffwn i ddechrau busnes fy hunan fel . . . yn y dyfodol.</i></p> <p><i>Ces i amser da ar brofiad gwaith ond nawr dw i'n gwybod fy mod i ddim eisiau bod yn . . . yn y dyfodol achos . . .</i></p> <p><i>Ces i amser da ar brofiad gwaith ond nawr dw i'n gwybod fy mod i ddim eisiau bod yn nyrs yn y dyfodol achos dw i ddim yn gallu gweithio gyda gwaed!</i></p> |
| <p><b>Argaeledd (availability)</b></p> <p>Pryd wyt ti'n gallu dechrau?</p> <p>Pryd fyddet ti'n gallu dechrau?</p> | <p><i>Rydw i'n gallu dechrau yn syth.</i></p> <p><i>Rydw i'n gallu dechrau penwythnos nesaf.</i></p> <p><i>Dydw i ddim yn gallu dechrau ar hyn o bryd achos rydw i'n adolygu ar gyfer fy arholiadau TGAU ond byddaf yn gallu dechrau ym mis Gorffennaf.</i></p>                                                                                                                                                                                                                                                                                  |

| Deilliannau Dysgu                                                                                                                        | Meini Prawf Asesu<br><b>Mynediad 2</b>                                     |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|
| DD3<br>Gallu gwrando a deall sgwrs rhwng dau berson e.e. gwrandewch ar sgwrs rhwng Siân a'r athro gyrfaeodd ac yna atebwch y cwestiynau. | MPA 3.1<br>Dethol isafswm o 5 ffaith wrth wrando ar sgwrs rhwng dau berson |

| Deilliannau Dysgu                                                                                                                        | Meini Prawf Asesu<br><b>Mynediad 3</b>                                      |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------|
| DD3<br>Gallu gwrando a deall sgwrs rhwng dau berson e.e. gwrandewch ar sgwrs rhwng Siân a'r athro gyrfaeodd ac yna atebwch y cwestiynau. | MPA 3.1<br>Dethol isafswm o 10 ffaith wrth wrando ar sgwrs rhwng dau berson |

Enghreifftiau o dasgau:

- Mae athro/athrawes gyrfaeodd yn holi cwestiynau am brofiad gwaith.
- Mae athro/athrawes gyrfaeodd yn holi cwestiynau am swydd ran amser.
- Mae athro/athrawes gyrfaeodd yn holi cwestiynau am fyd gwaith.

*\*\*Mae disgwyl i'r dysgwr ddethol isafswm o 5 ffaith wrth wrando ar sgwrs rhwng dau berson er mwyn llwyddo yn DD3 Mynediad 2\*\**

*\*\*Mae disgwyl i'r dysgwr ddethol isafswm o 10 ffaith wrth wrando ar sgwrs rhwng dau berson er mwyn llwyddo yn DD3 Mynediad 3\*\**

## Mynediad 2

DD3 MPA 3.1

Gwrandewch ar y cyfweiliad rhwng y disgybl a'r athro gyrfaoedd.

Rhowch ✓ wrth y llun cywir.

*Listen to the interview between the pupil and the careers teacher.*

*Place a ✓ next to the correct picture.*

| Enw               | Sarah                                                                               | Sioned                                                                               | Sian                                                                                  |
|-------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|
| Blwyddyn ysgol    | 11                                                                                  | 10                                                                                   | 12                                                                                    |
| TGAU – hoff bwnc? |   |   |   |
| Swydd ran amser?  |  |  |  |
| Gweithio. Pryd?   | Dydd Sadwrn                                                                         | Dydd Gwener                                                                          | Dydd Sul                                                                              |
| Faint o'r gloch?  | 9-5                                                                                 | 8-11                                                                                 | 7:30-2:30                                                                             |

(6368 **M2** DD3 MPA 3:1)

## Sgript:

Mr Davies: Bore da. Pwy wyt ti?

Sarah: Sarah Davies dw i.

Mr Davies: Bore da Sarah. Ym mha flwyddyn wyt ti?

Sarah: Dw i'n ddisgybl blwyddyn deg yn Ysgol y Bont.

Mr Davies: Pa bynciau TGAU wyt ti'n astudio?

Sarah: Dw i'n astudio Saesneg, mathemateg, hanes, technoleg ac ymarfer corff.

Mr Davies: P'un ydy dy hoff bwnc di?

Sarah: Fy hoff bwnc i ydy ymarfer corff achos dw i'n hoffi cadw'n heini.

Mr Davies: Oes swydd ran amser gyda ti?

Sarah: Oes. Dw i'n gweithio yn y stablau lleol achos dw i'n hoffi bod tu allan a dw i'n caru ceffylau.

Mr Davies: Gwych. Pryd wyt ti'n gweithio?

Sarah: Dw i'n gweithio bob dydd Sadwrn o wyth o'r gloch tan un o'r gloch a hefyd yn y gwyliau.

### Mynediad 3

DD3 MPA 3.1

Gwrandewch ar y cyfweiliad rhwng y disgybl a'r athro gyrfaoedd.

Rhowch ✓ wrth y llun cywir.

*Listen to the interview between the pupil and the careers teacher.*

*Place a ✓ next to the correct picture.*

| Enw               | Sarah                                                                               | Sioned                                                                               | Sian                                                                                  |
|-------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|
| Blwyddyn ysgol    | 11                                                                                  | 10                                                                                   | 12                                                                                    |
| TGAU – hoff bwnc? |   |   |   |
| Swydd ran amser?  |  |  |  |
| Gweithio. Pryd?   | Dydd Sadwrn                                                                         | Dydd Gwener                                                                          | Dydd Sul                                                                              |
| Faint o'r gloch?  | 9-5                                                                                 | 8-11                                                                                 | 7:30-2:30                                                                             |

|                            |                                                                                     |                                                                                      |                                                                                       |
|----------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|
| Gwneud beth?               |    |    |    |
| Penwythnos diwethaf. Beth? |    |    |    |
| Cyflog?                    | £30                                                                                 | £15                                                                                  | £10                                                                                   |
| Sgiliau?                   |    |    |    |
| Dyfodol?                   |  |  |  |

(6368 **M3** DD3 MPA 3:1)

## Sgript:

Mr Davies: Bore da. Pwy wyt ti?

Sarah: Sarah Davies dw i.

Mr Davies: Bore da Sarah. Ym mha flwyddyn wyt ti?

Sarah: Dw i'n ddisgybl blwyddyn deg yn Ysgol y Bont.

Mr Davies: Pa bynciau TGAU wyt ti'n astudio?

Sarah: Dw i'n astudio Saesneg, mathemateg, hanes, technoleg ac ymarfer corff.

Mr Davies: P'un ydy dy hoff bwnc di?

Sarah: Fy hoff bwnc i ydy ymarfer corff achos dw l'n hoffi cadw'n heini.

Mr Davies: Oes swydd ran amser gyda ti?

Sarah: Oes. Dw i'n gweithio yn y stablau lleol achos dw l'n hoffi bod tu allan a dw i'n caru ceffylau.

Mr Davies: Gwych. Pryd wyt ti'n gweithio?

Sarah: Dw i'n gweithio bob dydd Sadwrn o wyth o'r gloch tan un o'r gloch a hefyd yn y gwyliau.

Mr Davies: Beth mae rhaid i ti wneud?

Sarah: Wel, mae rhaid i fi lanhau'r stablau a rhoi bwyd i'r ceffylau. Penwythnos diwethaf roeddwn i wedi mynd â Beauty am dro.

Mr Davies: Beth yw'r cyflog?

Sarah: Dw i'n ennill tri deg punt bob dydd Sadwrn.

Mr Davies: Pa sgiliau sy'n bwysig?

Sara: Wel, mae rhaid i chi hoffi anifeiliaid a hoffi glanhau!

Mr Davies: Beth hoffet ti wneud yn y dyfodol?

Sarah: Yn y dyfodol hoffwn i agor stablau a rhoi gwersi marchogaeth i blant.

## Mynediad 2

DD3 MPA 3.1

Gwrandewch ar y cyfweiliad rhwng y disgybl a'r athro gyrfaodd.

Rhowch ✓ wrth y llun cywir.

*Listen to the interview between the pupil and the careers teacher.*

*Place a ✓ next to the correct picture.*

| Enw                     | Tim                                                                                 | Twm                                                                                  | Tom                                                                                   |
|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|
| Profiad gwaith          | Ffilmiau'r Ffin                                                                     | Ffilmiau'r Ffôn                                                                      | Ffilmiau'r ffrind                                                                     |
| Cwmni beth?             |   |   |   |
| Ble?                    | Casnewydd                                                                           | Caerffili                                                                            | Caerdydd                                                                              |
| Teithio. Sut?           |  |   |  |
| Gwneud beth? (prynhawn) |  |  |  |

(6368 **M2** DD3 MPA 3:1)

## Sgript:

Athro: Prynhawn da Twm. Ble est ti ar brofiad gwaith yr wythnos diwethaf?

Twm: Es i i gwmni ffilmiau Cymraeg o'r enw 'Ffilmiau'r Ffin'.

Athro: Diddorol iawn Twm! Ble mae swyddfa'r cwmni?

Twm: Mae swyddfa'r cwmni yng Nghasnewydd.

Athro: Sut est ti bob dydd?

Twm: Es i ar y trê'n o Gaerffili i Gasnewydd bob dydd. Roedd e'n hwyl! Codais i am chwech o'r gloch (ych a fil!) a daliais i'r trê'n am saith o'r gloch. Prynais i iogwrt a ffrwythau a choffi yn 'Sandwich Stop' yn yr orsaf a bwytais i'r brecwast ar y trê'n. Dechreuais i yn y gwaith am hanner awr wedi wyth bob dydd.

Athro: Beth oedd rhaid i ti wneud?

Twm: Yn y bore helpais i'r bobl gyda'r set ac yn y prynhawn helpais i'r bobl camera i ffilmio.

### Mynediad 3


DD3 MPA 3.1

Gwrandewch ar y cyfweiliad rhwng y disgybl a'r athro gyrfaoedd.

Rhowch ✓ wrth y llun cywir.

*Listen to the interview between the pupil and the careers teacher.*

*Place a ✓ next to the correct picture.*

| Enw                     | Tim                                                                                 | Twm                                                                                  | Tom                                                                                   |
|-------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|
| Profiad gwaith          | Ffilmiau'r Ffin                                                                     | Ffilmiau'r Ffôn                                                                      | Ffilmiau'r ffrind                                                                     |
| Cwmni beth?             |   |   |   |
| Ble?                    | Casnewydd                                                                           | Caerffili                                                                            | Caerdydd                                                                              |
| Teithio. Sut?           |  |   |  |
| Brecwast                |  |  |  |
| Gwneud beth? (prynhawn) |  |  |  |

|                       |                                                                                    |                                                                                     |                                                                                      |
|-----------------------|------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|
| Dysgu sgiliau newydd? |   |   |   |
| Cinio dydd Gwener?    |   |   |   |
| Y dyfodol?            |   |   |   |
| Y dyfodol. Byw - ble? |  |  |  |

(6368 M3 DD3 MPA 3:1)

## Sgript:

Athro: Prynhawn da Twm. Ble est ti ar brofiad gwaith yr wythnos diwethaf?

Twm: Es i i gwmni ffilmiau Cymraeg o'r enw 'Ffilmiau'r Ffin'.

Athro: Diddorol iawn Twm! Ble mae swyddfa'r cwmni?

Twm: Mae swyddfa'r cwmni yng Nghasnewydd.

Athro: Sut est ti bob dydd?

Twm: Es i ar y trê'n o Gaerffili i Gasnewydd bob dydd. Roedd e'n hwyl! Codais i am chwech o'r gloch (ych a fil!) a daliais i'r trê'n am saith o'r gloch. Prynais i iogwrt a ffrwythau a choffi yn 'Sandwich Stop' yn yr orsaf a bwytais i'r brecwast ar y trê'n. Dechreuais i yn y gwaith am hanner awr wedi wyth bob dydd.

Athro: Beth oedd rhaid i ti wneud?

Twm: Yn y bore helpais i'r bobl gyda'r set ac yn y prynhawn helpais i'r bobl camera i ffilmio.

Athro: Oedd y bobl yn neis?

Twm: Roedd y bobl yn neis iawn. Roedden nhw'n hapus i ddysgu sgiliau newydd i fi fel ffilmio a gosod set a gweithio mewn tîm.

Athro: Beth am ginio bob dydd?

Twm: Ces i frechdanau, creision a diod dydd Llun i ddydd Iau ond ar ddydd Gwener es i gyda'r criw ffilmio i Nando's yn y dre. Ces i amser gwych achos roedd y bwyd yn flasus a'r bobl yn gyfeillgar iawn.

Athro: A beth am y dyfodol Twm?

Twm: Hoffwn i weithio gyda chwmni ffilmiau yn y dyfodol yn bendant! A bod yn onest, hoffwn i weithio gyda chwmni ffilmiau 'Ffilmiau'r Ffin' achos dw i eisiau gweithio a byw yng Nghymru.